Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Protocolau'r Goron**

10 Rhagfyr 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

*Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ôl yr hawl gyffredinol i gael mynediad at y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gofynnaf i'r Cynulliad Cenedlaethol roi'r holl wybodaeth sydd i'w chael yn y Memoranda Esboniadol, protocolau rhannu gwybodaeth neu debyg sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng Cynulliad Cymru ac (i) y Goron; (ii) Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Charles, Tywysog Cymru ac (iii) Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog William, Dug Caergrawnt.*

*Edrychaf ymlaen at dderbyn yr ymateb ar ran Cynulliad Cymru o fewn yr amserlen statudol.*

Yn dilyn chwiliad o'n cofnodion papur ac electronig, gallaf gadarnhau nad oes gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y [Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth](). Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

<u>A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?</u>

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu yn ysgrifenedig at:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF